

Gair Duw

Darlleniad: Exodus 3: 1-15

‘Y mae gair Duw yn fyw a grymus; y mae’n llymach na’r un cleddyf daufiniog, ac yn treiddio hyd at wahaniad yr enaid a’r ysbryd, y cymalau a’r mêr, ac y mae’n barnu bwriadau a meddyliau’r galon.’

O! Dduw ein Tad, diolchwn i ti yn awr am y cyfle hwn i’th addoli mewn oedfa arall. Diolchwn am bob un a fu yma o’n blaen yn craffu ar dy Air ac yn rhoi eu ffydd yn dy addewidion. Ac wrth nesáu at dy orsedd cyffeswn ein holl feiau ger dy fron, gan y gwyddom nad oes dim yn guddiedig oddi wrthyt ti, a bod gennyt ti faddeuant a thrugaredd ar ein cyfer.

Wrth ddyfod atat rydym yn ymwybodol mai yng nghwmni dy holl ddilynwyr ar hyd yr oesoedd y dewn. Diolchwn am iddynt hwy dy gael yn un teilwng i roi eu hyder ynddo, ac am i ti ar hyd y canrifoedd ddod i gymdeithas â’th bobl mewn mannau sanctaidd fel hyn.

Rydym yn cofio i ti gyfarfod Moses yn yr anialwch lle roedd y berth yn llosgi heb ei difa, ac i’r tân hwnnw a ysai’r berth gynnau’n fflam yn ei galon yntau. Arglwydd da, fe hoffem ni deimlo gwres y fflam heddiw. Rydym yn byw mewn byd sydd mor oer yn aml, byd sy’n ddifater ac yn anystyriol o anghenion dynion. Ac mewn awyrgylch felly, Arglwydd, y mae perygl i’n perthynas ni â thi fynd yn oer, ac i lwydrew difaterwch ddisgyn ar ymwneud dy bobl â’i gilydd. Felly, ein gweddi yw ar i ti adfer tipyn o wres dy fflam i galonnau dy bobl, fel y bydd i’r byd deimlo gwres y tân sy’n llosgi ac na all dim ei ddifa.

Ein Tad, yn ogystal â’r gwres i’n dadebru fe hoffem ni gael hefyd beth o oleuni’r fflam yn ein bywyd. A’r Beibl yn ein dwylo rydym yn diolch am bob un a fu’n dwyn goleuni o’th Air i oleuo bywydau dynion. Ie, tywyll iawn fyddai’r byd heb y goleuni hwn:

‘O Arglwydd, dysg im chwilio
I wirioneddau’r gair,
Nes dod o hyd i’r Ceidwad
Fu gynt ar liniau Mair;’

Ar hyd y canrifoedd yr wyt ti, ein Tad, drwy’r ysgrythur wedi arwain rhywrai i’th adnabod yn well, ac effaith adnabyddiaeth lwyrach ohonot ti yn ddieithriad fu dwyn goleuni i fywydau rhywrai eraill. Rydym oll mewn dyled i’r gwŷr a’r gwragedd a’th adnabu di drwy dy Air. Pobl a fynnodd fod eu cyd-ddynion yn cael gwell bywyd am iddynt eu gweld yng ngoleuni dy deyrnas. Mae’r hen yn cael ymgeledd, a’r plant yn cael addysg, a’r gwan yn cael cynhالياeth heddiw am i rywrai sylweddoli mai dy eiddo di oeddynt.

Ond fe wyddom, Arglwydd, er hynny, y gellir diffodd pob golau, ac mae’r bendithion a ddaeth inni drwy’r Gair mewn perygl o fynd i golli heddiw oherwydd ein hunanoldeb ni. Gad i ni felly glywed y Gair yn ein barnu, ac yn treiddio hyd at ein cymhellion dyfnach; gad i ni ganfod ynddo nid yn unig gysur, ond hefyd her a symbyliad i weithio:

‘Dysg imi gerdded mwy bob cam
Gan feddwl am d’orchmynion;
Boed ynddynt hwy fy serch a’ m blys,
O wir ewyllys calon.’

O! Dduw, fe weddiwn hefyd dros y rhai hynny nad yw’r Gair eto wedi cyffwrdd eu bywyd i’w gwared o’u dioddef. Y llu mawr yn ein byd sydd yn byw mewn ofn ac yn marw drwy drais, y ffoaduriaid sy’n dianc o flaen rhyfel a’r rhai sy’n marw o newyn. Wrth eu cyflwyno i’th ofal di, fe ofynnwn hefyd am dy faddeuant, gan weddio y bydd i ti arwain llywodraethwyr y byd i liniaru baich eu dioddef. Hyn a ofynnwn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

Elwyn Richards